

## DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

|                      |  |
|----------------------|--|
| <b>Teitl y Swydd</b> | Pennaeth Cyflymu   |
| <b>Lleoliad</b>      | Bae Caerdydd   |
| <b>Yn atebol i'r</b> | Cyfarwyddwr Gweithrediadau   |
| <b>Band Cyflog</b>   | 3  |
| <b>Cyflog</b>        | £56,100 pro rata am 15 awr yr wythnos<br>Ystyrir trefniant secondiad   |
| <b>Cyfnod</b>        | Mae'r penodiad yn amodol ar gael cyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a/neu Lywodraeth Cymru yng nghyswllt cyflawni'r rhaglen Cyflymu. Disgwylir i'r rhaglen ddod i ben fis Ebrill 2022. |

### PRIF BWRPAS Y SWYDD:

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a nodi sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran arloesedd ym maes iechyd, gofal a lles. Felly, mae Rhaglen Cyflymu a ariennir gan Ewrop yn weithgaredd strategol a gweithredol allweddol wrth gefnogi amcanion yr Hwb Gwyddorau Bywyd.

Gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, mae Pennaeth Cyflymu yn allweddol i gyflawni rhaglen Cyflymu'n llwyddiannus, sef rhaglen cyflymu technoleg arloesi ym maes iechyd a ddarperir ledled Cymru i fusnesau ac unigolion cynhenid sy'n mewnfuddsoddi. Caiff ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno drwy gydweithrediad pedwar sefydliad – Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf (y Prif Fuddiolwr) gyda rhaglen gwerth £23.5 miliwn.



Bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo ac yn datblygu'r cysondeb gweithredol sy'n bodoli eisoes ymysg y partneriaid, gan ddarparu cyfeiriad strategol i wneud yn siŵr bod amcanion y rhaglen yn cael eu cyflawni ar amser, o fewn y gyllideb a'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyllido.

Prif amcanion y rôl yw:

- Darparu arweiniad effeithiol a gweladwy ar draws y consortiwm o bedwar partner (ATic ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; HTC ym Mhrifysgol Abertawe; CIA ym Mhrifysgol Caerdydd a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru), gan sicrhau cydweithrediad effeithiol a pherthnasoedd gwaith cytûn.
- Ymchwilio i gyfleoedd cyllido ar gyfer y dyfodol, ac arwain gweithgareddau datblygu cynigion i sicrhau parhad y rhaglen.
- Darparu cyngor ac arweiniad strategol a gweithredol i'r Consortiwm er mwyn sicrhau bod amcanion a deilliannau'n cael eu cyflawni, yn ogystal â sicrhau bod yr holl rwymedigaethau cyfreithiol a gweinyddol yn cael eu bodloni.

Hefyd, disgwylir i'r rhaglen gyflawni yn erbyn themâu trawsbynciol, sef cyfleoedd cyfartal, datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi.

Bydd deiliad y swydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, ond rhaid iddo ef/hi fod yn barod i deithio a gallu gwneud hynny, yn bennaf ar draws De Cymru lle mae'r partneriaid wedi'u lleoli ac i leoliadau eraill ledled Cymru neu'r DU fel bo angen.

Bydd llwyddiant yn y rôl yn cael ei asesu yn erbyn amcanion unigol. Caiff perfformiad hefyd ei fonitro a'i asesu ar sail cyflawniad cyffredinol y cynllun cyflawni / strategol ac yn ôl y ddogfen Cyllid a Ddyfarnwyd.

## **PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

### **Rheoli Pobl**

- Darparu arweiniad effeithiol a gweladwy ar draws y consortiwm o bedwar partner (ATic ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; HTC ym Mhrifysgol Abertawe; CIA ym Mhrifysgol Caerdydd a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru), gan sicrhau cydweithrediad effeithiol a pherthnasoedd gwaith cytûn.
- Rheoli, annog, hyfforddi, mentora, cefnogi a datblygu tîm y consortiwm i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni yn unol â'r modelau gweithredu a rheoli, y cylchoedd gorchwyl a'r gweithdrefnau a'r polisïau penodedig.
- Gweithio gydag arddull rheoli cydweithredol a meithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng holl weithwyr y consortiwm.
- Hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac ar draws y consortiwm.

## **Rheoli Darpariaeth**

- Darparu cyngor ac arweiniad strategol i'r consortiwm ynglŷn â gweithgareddau cynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod amcanion a dangosyddion yn cael eu cyflawni.
- Cadeirio cyfarfod misol y Grŵp Rheoli Cyflymu ac arwain trafodaethau.
- Mynd i gyfarfod Bwrdd Llywodraethu Cyflymu ddwywaith y flwyddyn, gan arwain y gwaith o gynhyrchu papurau a chyflwyno ar ran y consortiwm.
- Mynd i gyfarfodydd Pwyllgor a Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ôl y gofyn, gan arwain y gwaith o gynhyrchu a chyflwyno papurau.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd – ffurfiol ac anffurfiol – i'r Prif Ymchwilyr Partner ac i Reolwyr Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- Arwain perthnasoedd gyda chyllidwyr ar y cyd â'r Rheolwr Gweinyddol a Chyllid.
- Nodi cyfleoedd am grantiau a chyllid perthnasol arall er mwyn ariannu'r rhaglen, ac arwain gweithgareddau datblygu cynigion er mwyn creu cynigion llwyddiannus am gyllid.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Gweinyddol a Chyllid, monitro pa mor effeithiol a phriodol yw'r model gweithredu ac awgrymu addasiadau i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

## **Rheoli Perfformiad, Risg a Chydymffurfedd**

- Gweithio gyda'r consortiwm i nodi ac adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir, dangosyddion ac amcanion.
- Arwain y gwaith o gasglu data perfformiad ac adrodd arnynt, yn ogystal â chynnal dogfennau perthnasol ar gyfer y rhaglen. Rhoi arweiniad i'r consortiwm i wneud yn siŵr bod data perfformiad a dogfennau prosiectau'n gadarn, yn gywir ac yn destun adroddiadau o fewn amserlenni gofynnol.
- Sicrhau bod risgiau/problemau yn y rhaglen yn cael eu hadnabod yn fuan, a bod mesurau rheoli/lliniaru yn cael eu rhoi ar waith. Uwchgyfeirio materion strategol/risg uchel i'r Bwrdd Llywodraethu/Pwyllgor Archwilio a Thaliadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru/Rheolwyr Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, lle bo hynny'n briodol.

## **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Helpu'r Tîm Cyflymu i feithrin a chynnal perthnasoedd cryf a hygred gyda rhanddeiliaid er mwyn mabwysiadu diwylliant o bartneriaeth a chydweithio.
- Hyrwyddo bwriad a gwasanaethau Cyflymu yn benodol, a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyffredinol, ar draws y diwydiant a sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn nodi a sicrhau cyfleoedd strategol i gydweithio.

- Cydymffurfio â holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol y Cwmni.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd a'r Prif Swyddog Gweithredol i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a nodau'r cwmni.
- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## MANYLEB Y PERSON

| NODWEDDION             | HANFODOL  | DYMUNOL  |
|------------------------|---|--|
| <b>GWYBODAETH</b>      | Rhaglenni datblygu a ariennir drwy grant  | Rhaglenni economaidd neu ymchwil a datblygu a ariennir gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF)                           |
|                        | Y ffynonellau cyllid sydd ar gael yn y DU, yr UE ac yn rhyngwladol ar gyfer arloesi ym maes gofal iechyd          | Deall y fframwaith a'r cyddestun gwleidyddol sy'n berthnasol i gwmni sy'n gweithredu fel "corff hyd braich" ar ran Llywodraeth Cymru |
|                        | Anawsterau cysylltiedig â gweithio mewn amgylchedd cymhleth gyda nifer o randdeiliaid.                            |  |
| <b>PROFIAD</b>         | Rhaglenni llywodraeth ranbarthol neu genedlaethol arweiniol   | Arwain rhaglenni aml-bartner a ariennir gan ERDF   |
|                        | Datblygu strategaethau mewn amgylchedd aml-bartner  |  |
|                        | Meithrin perthnasoedd cryf gyda nifer o randdeiliaid mewnol ac allanol  |  |
|                        | Rheoli, annog a datblygu tîm er mwyn cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion strategol            |  |
|                        | Sicrhau cyllid grant  |  |
|                        | Rheoli Risg   |  |
| <b>SGILIAU A GALLU</b> | Arweinyddiaeth effeithiol - yn arwain drwy esiampl ac yn ymddwyn fel model rôl o ran ymddygiad a phroffesiynoldeb |  |
|                        | Gallu gwneud penderfyniadau cadarn – yn alluog mewn asesu gwybodaeth, ymddygiad a sefyllfaoedd er mwyn            |  |

|  |   |   |
|--|---|---|
|  | gwneud penderfyniadau amserol, ystyrion sydd wedi'u hystyried yn dda  |   |
|  | Sgiliau rhyngpersonol effeithiol - y gallu i ddylanwadu, trafod a gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid   |   |
|  | Sgiliau cyfathrebu effeithiol – gallu bod yn ystyriol a diplomataidd wrth gyfathrebu negeseuon, yn gwranddo ac yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol | <p>Rhugl yn y Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu dilyn y rhan fwyaf o sgysiau sy'n ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp.</li> <li>• Gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio rhywfaint o eiriau Saesneg.</li> <li>• Gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol.</li> </ul> |
|  | Gallu effeithiol o ran datrys problemau – yn alluog mewn adnabod, wynebu a datrys problemau   |   |
|  | Llaw cymhelliant ac ymroddedig i gyflawni canlyniadau ac effeithiau - hyrwyddo ac yn arwain y gwaith o gyflawni amcanion tîm  |   |
|  | Gallu defnyddio pecynnau meddalwedd Windows, rheoli prosiectau a systemau CRM   |   |

## GOFYNION ERAILL

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch datgelu a gwahardd.
- Bod yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.

## JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION

|                       |  |
|-----------------------|--|
| <b>Job Title</b>      | Head of Accelerate   |
| <b>Location</b>       | Cardiff Bay  |
| <b>Responsible to</b> | Operations Director  |
| <b>Salary Band</b>    | 3  |
| <b>Salary</b>         | £56,100 pro rata for 15 hours per week<br>Secondment arrangement will be considered  |
| <b>Term</b>           | Appointment is contingent upon receipt of funding from the Wales European Funding Office and/or Welsh Government in relation to delivery of the Accelerate programme. Programme is expected to conclude April 2022 |

### MAIN PURPOSE OF ROLE:

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovative solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place of choice for health, care and wellbeing innovation. The European funded Accelerate Programme, therefore is a key strategic and operational activity in supporting the Life Sciences Hub's objectives.

Reporting to the Operations Director, the Head of Accelerate is critical to the successful delivery of the Accelerate programme, a health innovation technology accelerator programme delivered across the whole of Wales to indigenous and inward-investing businesses and individuals. It is jointly funded by the Welsh Government and the European Union through the European Regional Development Fund.

The programme is delivered through a collaboration of four organisations – Swansea University, Cardiff University, University of Wales Trinity Saint David and Life Sciences Hub Wales Ltd (Lead Beneficiary) with a programme value of £23.5 million.



The post holder will promote and build upon existing operational alignment amongst the partners and provide strategic direction to ensure that programme objectives are delivered on time, in budget and comply with funding requirements.

The main objectives of the role are:

- To provide visible and effective leadership across the consortium of the four partners (ATic at The University of Wales Trinity St Davids; HTC at Swansea University; CIA at Cardiff University and the Life Sciences Hub Wales), ensuring effective collaboration and harmonious working relationships.
- Explore future funding opportunities and lead bid development activities to secure a continuation of the programme.
- Provide strategic and operational advice and guidance to the Consortium to secure the achievement of objectives and indicators and ensure all legal and administrative obligations are fully met.

The programme is also expected to deliver against the cross-cutting themes of equal opportunities, sustainable development, social inclusion and tackling poverty.

Although based in Cardiff, the post holder must be able and willing to travel, primarily across South Wales where the partners are based and to other locations throughout Wales or the UK as necessary.

Success in the role will be assessed against individual objectives. Performance will also be monitored and assessed against the overall delivery of the strategic / delivery plan and against the Award for Funding document.

## **MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

### **People Management**

- Provide visible and effective leadership across the consortium of the four partners (ATic at The University of Wales Trinity St Davids; HTC at Swansea University; CIA at Cardiff University and the Life Sciences Hub Wales), ensuring effective collaboration and harmonious working relationships.
- Manage, motivate, coach, mentor, support and develop the consortium team to ensure the programme is delivered in accordance with the defined operational and governance models, terms of references, procedures and policies.
- Work in a collaborative management style and foster close working relations between all consortium employees.
- Promote diversity, inclusion and equality within LSHW and across the consortium.



## **Delivery Management**

- Provide strategic advice and guidance to the consortium on planning and delivery activity to secure achievement of objectives and indicators.
- Chair the monthly Accelerate Management Group (AMG) meeting and lead discussions.
- Attend the bi-annual Accelerate Governance Board (AGB) meeting, leading on the production of papers and presenting on behalf of the consortium.
- Attend the LSHW Board and Committee meetings as required, leading on the production and presentation of papers.
- Provide regular updates – both formally and informally – to the Partner PIs (Principle Investigators) and to LSHW Executive Management.
- Lead relationship with funder/s, in conjunction with the Finance and Administrative Manager.
- Identify grant and other relevant funding opportunities to fund the programme and lead bid development activities to produce successful funding bids.
- In conjunction with the Finance and Administrative Manager, monitor the effectiveness and appropriateness of the operating model and recommend adjustments to the Operations Director.

## **Performance, Risk and Compliance Management**

- Work with the consortium to identify and review progress against milestones, indicators and objectives.
- Lead on the capture and reporting of performance data and maintain relevant programme documentation. Guide the consortium to ensure performance data and project documentation is robust, accurate and reported within mandated timescales.
- Ensure the early identification of programme risks/issues, and that controls/mitigation are actioned. Escalate high risk/strategic issues to Governance Board/LSHW Audit and Remuneration Committee/LSHW Executive Management as appropriate.

## **Stakeholder Engagement**

- Support the Accelerate Team to build and maintain strong, credible relationships with stakeholders to foster a culture of partnership and collaboration.
- Promote the intent and services of Accelerate specifically, and LSHW generally across industry, health and social care sectors to identify and secure strategic collaboration opportunities.

- Comply with all applicable Company policies and procedures.
- Support the Operations Director, Innovation Adoption Director and CEO, to promote and support the achievement of the company’s mission, vision and goals.
- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the LSHW’s code of conduct.

## PERSONAL SPECIFICATION

| ATTRIBUTES                    | ESSENTIAL  | DESIRABLE  |
|-------------------------------|--|--|
| <b>KNOWLEDGE</b>              | Grant funded development programmes  | ERDF funded economic or R&D programmes   |
|                               | UK, EU and international funding sources available for healthcare innovation   | An appreciation of the political context and framework for a company operating as a “arms-length body” of the Welsh Government |
|                               | Intricacies of working in a complex environment with a number of stakeholders  |  |
| <b>EXPERIENCE</b>             | Leading regional or national government programmes   | Leading multi-partner ERDF funded programmes   |
|                               | Strategy development in a multi-partner environment  |  |
|                               | Building strong relationships with multiple internal and external stakeholders   |  |
|                               | Managing, motivating and developing a team to deliver key performance indicators and strategic objectives                                |  |
|                               | Securing grant funding   |  |
|                               | Risk Management  |  |
|                               |  |  |
| <b>SKILLS &amp; ABILITIES</b> | Effective leadership - leads by example and acts as a role model in terms of behaviour and professionalism                               |  |
|                               | Strong decision maker – skilled at assessing information, behaviours and situations to make timely, considered and well-judged decisions |  |
|                               | Effective interpersonal skills - ability to influence, negotiate and   |  |

|  |  |   |
|--|--|---|
|  | work in partnership with all stakeholders  |   |
|  | Effective communication skills – ability to demonstrate tact and diplomacy when communicating messages, listens and responds appropriately in formal and informal situations | <p>Fluent in the Welsh Language:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Able to follow the majority of conversations involving work including group discussions.</li> <li>• Able to speak the language in the majority of situations using some English words.</li> <li>• Able to draft routine text, with editing assistance.</li> </ul> |
|  | Effective problem-solving ability – skilled at identifying, confronting and proactively resolving issues   |   |
|  | Driven and dedicated to achieving outcomes and impacts - promotes and leads the achievement of team objectives   |   |
|  | Proficient in window-based software packages, project management and CRM systems   |   |

## OTHER REQUIREMENTS

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.